ATODLEN 4

Eithriadau

# RHAN 2

## Marchnata hadau nad ydynt yn cydymffurfio ag Atodlen 2

### Marchnata hadau o amrywogaethau cadwraeth

**7.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi marchnata hadau amrywogaeth gadwraeth yn unol â'r paragraff hwn.

(2) Rhaid i'r hadau fod yn hadau amrywogaeth a restrwyd fel amrywogaeth gadwraeth yn Rhestr Genedlaethol y Deyrnas Unedig.

(3) Rhaid cynhyrchu'r hadau o gnwd a dyfir yn y rhanbarth a bennir fel tarddle'r amrywogaeth yn Rhestr Genedlaethol y Deyrnas Unedig, neu fel yr awdurdodir gan Weinidogion Cymru.

(4) Ni cheir marchnata a defnyddio'r hadau ac eithrio yn y rhanbarth a ddatgenir fel y tarddle.

(5) Rhaid cyfyngu ar gyfanswm yr hadau sy'n cael eu marchnata mewn unrhyw un flwyddyn yn unol ag Erthygl 14 o Gyfarwyddeb y Comisiwn 2008/62/EC(**1**) (sy'n ymwneud ag amrywogaethau cadwraeth amaethyddol) ac Erthygl 15 o Gyfarwyddeb y Comisiwn 2009/145/EC ac Atodiad I i'r Gyfarwyddeb honno(**2**) (sy'n ymwneud ag amrywogaethau cadwraeth o lysiau).

(6) Ac eithrio yn achos hadau amrywogaeth gadwraeth o lysieuyn a wiriwyd fel hadau safonol, rhaid i'r hadau fod yn ddisgynyddion hadau a gynhyrchwyd yn unol ag arferion a ddiffiniwyd yn eglur ar gyfer cynnal yr amrywogaeth.

(7) Yn achos hadau betys, hadau ŷd, hadau planhigion porthiant a hadau olew a ffibr, rhaid i'r hadau gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer ardystio hadau ardystiedig a bennir yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2002/54/EC(**3**) (hadau betys), Cyfarwyddeb y Cyngor 66/402/EEC (hadau ŷd), Cyfarwyddeb y Cyngor 66/401/EEC(**4**) (hadau planhigion porthiant) neu Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/57/EC(**5**) (hadau planhigion olew a ffibr) (yn ôl fe y digwydd), ac eithrio'r gofynion mewn perthynas â phurdeb amrywogaethol minimol ac archwilio.

(8) Rhaid i hadau llysiau gydymffurfio ag—

(a) y gofynion ar gyfer ardystio hadau ardystiedig, a bennir yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC(**6**) ar farchnata hadau llysiau, ac eithrio'r gofynion mewn perthynas â phurdeb amrywogaethol minimol ac archwilio; neu

(b) y gofynion ar gyfer marchnata hadau safonol a bennir yn y Gyfarwyddeb honno, ac eithrio'r gofynion mewn perthynas â phurdeb amrywogaethol minimol.

(9) Rhaid i burdeb amrywogaethol hadau amrywogaeth gadwraeth fod yn ddigonol.

(10) Rhaid peidio â gwerthu'r hadau fel hadau rhydd o dan baragraff 26 o Atodlen 3.

(11) Rhaid labelu'r hadau gyda label cyflenwr neu hysbysiad printiedig neu stampiedig sydd, yn ychwanegol at gydymffurfio â darpariaethau cymwys y paragraff o Ran 4 o Atodlen 3 sy'n gymwys i'r math o hadau dan sylw (ac eithrio'r darpariaethau sy'n pennu lliw'r label)—

(**1**) OJ Rhif L 162, 21.6.2008, t.13.
(**2**) OJ Rhif L 312, 27.11.2009, t.44.
(**3**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t.12, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2004/117/EC (OJ Rhif L 14, 18.1.2005, t. 18).
(**4**) OJ Rhif L 125, 11.7.1966, t. 2298, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2009/74/EC.
(**5**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 74, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2009/74/EC.
(**6**) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 33, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2009/74/EC.

(a) yn cynnwys—

(i) yn achos amrywogaeth gadwraeth amaethyddol, y geiriau "conservation variety", neu

(ii) yn achos amrywogaeth gadwraeth o lysieuyn, y geiriau "certified seed of a conservation variety" neu "standard seed of a conservation variety";

(b) yn datgan rhanbarth y tarddiad; ac

(c) o liw brown.

(12) Yn y paragraff hwn, mae i "amrywogaeth gadwraeth" yr ystyr a roddir i "conservation variety" gan reoliad 2(1) o Reoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001(**7**).

(**7**) O.S. 2001/3510; mewnosodwyd y diffiniad o "conservation variety" gan O.S. 2009/1273 ac amnewidiwyd gan O.S. 2011/464.